Wales Office
Swyddfa Cymru

**Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru – 22 Mai 2013**

Roedd Araith y Frenhines ar 8 Mai 2013 yn amlinellu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhaglen yn adeiladu ar y diwygiadau rydym eisoes wedi'u rhoi ar waith yn y Senedd hon i fynd i'r afael â'r etifeddiaeth economaidd a chymdeithasol a adawyd i ni.

Mae trydedd raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar dwf a lleihau'r diffyg ariannol, yn ogystal â diwygio cymdeithasol. Mae'n fater o gefnogi pobl sy'n gweithio'n galed ac sydd am ddod ymlaen yn y byd, a'i gwneud yn haws i fusnesau ffynnu. Byddwn yn dod â 17 Bil a 2 Fil Drafft gerbron dros y deuddeg mis nesaf, a chyflwynwyd eisoes 10 Bil yn y sesiwn newydd.

Bydd nifer o fesurau'n cyfrannu'n helaeth at helpu busnesau yng Nghymru ac yn fodd i roi hwb i economi Cymru, gan roi bywyd newydd i'n sector preifat a chreu'r swyddi sydd eu hangen ar bobl.

Mae ein **Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol** yn lleihau'r gost o recriwtio gweithwyr newydd, yn enwedig i fusnesau bach, a bydd y **Bil Dadreoleiddio** yn cymryd camau pellach i ysgafnhau'r baich o ddeddfwriaeth ddiangen ar gwmnïau'n sy'n dymuno tyfu. Rydym hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth i helpu busnesau i ddiogelu eu **heiddo deallusol**, sy'n hanfodol i arloeswyr ledled y DU, yn cynnwys Cymru. Rydym hefyd am sicrhau bod busnesau'n trin eu cwsmeriaid yn deg, a byddwn yn cyflwyno **Bil Hawliau Defnyddwyr** i symleiddio ac atgyfnerthu'r gyfraith yn y maes hwn.

Byddwn hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth i fwrw ymlaen â diwygiadau cymdeithasol pwysig.

Bydd y **Bil Pensiynau** yn creu cyfradd safonol syml o bensiwn sy'n annog pobl i gynilo ac sy'n gwobrwyo pobl sydd wedi cyfrannu drwy gydol eu hoes. Bydd y **Bil Mewnfudo** yn diwygio system fewnfudo Prydain ymhellach, gan gryfhau pwerau gorfodi a chymryd camau i warchod ein gwasanaethau cyhoeddus. Rydym eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth a fydd yn gwneud mwy i fynd i'r afael ag **ymddygiad gwrthgymdeithasol** i gadw ein cymdogaethau'n saff a diogel, yn ogystal â deddfwriaeth i weddnewid y ffordd rydym yn **adsefydlu troseddwyr** er mwyn rhoi sylw i'r rheini sy'n ail-droseddu'n fynych. Rydym hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod dioddefwyr rhai mathau penodol o ganser sy'n gysylltiedig ag asbestos yn cael taliadau oni ellir canfod yswiriwr neu gyflogwr sy'n atebol am hyn.

Byddwn hefyd yn diwygio'r diwydiant dŵr drwy'r **Bil Dŵr**, i wneud yn siŵr bod y sector dŵr yn fwy cydnerth yn wyneb peryglon naturiol fel sychder a llifogydd, gan roi mwy o ddewis i gwsmeriaid a chefnogi twf drwy annog buddsoddiad ac arloesedd.

Bydd pob un o'r Biliau hyn yn esgor ar fanteision uniongyrchol i Gymru. Mae ein rhaglen hefyd yn cynnwys Bil Cymru drafft, gan roi mesurau ar waith sy'n ymwneud ag ethol Aelodau Cynulliad. Cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar hyn y llynedd.

Ym mis Mai 2010, daeth y Llywodraeth Glymblaid ynghyd i lywodraethu er budd y genedl. Roeddem yn gwybod y byddai'r daith yn un anodd - a gwir bob gair. Dair

blynedd i lawr y lôn, mae ein gweledigaeth i weddnewid ein gwlad mor gadarn ag erioed ac mae'r rhaglen ddeddfwriaethol hon yn profi hynny'n glir.